

CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Dewi Evans

Nos Lun Chwefror 2ail 2015 am 7.30 y.h.

Yn absenoldeb y Cadeirydd cymerwyd y gadair gan y cyn-gadeirydd Gari Jones

**Cofnodion**

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Alun Owen, Paul Weston a Dilwyn Roberts.
2. **Presennol:** Cyng. Alun Edwards, Gari Jones, Edmund Rees, a Gwynfor Roberts.
3. **Cod Ymddygiad:** Neb yn datgan diddordeb.
4. **Cofnodion mis Rhagfyr** cynigiwyd yn gywir gan Edmund Rees gydag Alun Edwards yn eilio.
5. **Materion y Codi o'r Cofnodion:-**
  - 5.1. Dim
6. **Gohebiaeth:**
  - 6.1. CBSC – Rhannwyd ac arwyddwyd y Cynghorwyr am Gofrestr Lawn o Etholwyr.
  - 6.2. Un Llais Cymru (Nalc) –trafodwyd cyflog y clerc a chafwyd adroddiad o'r canlyniad gan Edmund Rees. *'Cynigiodd Edmund Rees efo Gwynfor Roberts yn eilio bod cyflog y Clerc yn cael ei godi yn ôl amodau'r NJC a gytunwyd ym mis Tachwedd. Mae hyn yn golygu un taliad ar wahân o £100.00 ar gyfer Rhagfyr 2014 a chodiad o 2.2% yn y tâl yn ôl yr awr o Ionawr 2015 ymlaen. Cytunwyd pawb i dalgrynnu i fyny y tâl misol i £135.00 er mwyn hwylustod'*. Cytunwyd talu'r **£100.00** gyda siec rhif **100234** hefyd yr ôl-daliad o ddau fis sef 2x £3 = **£6.00** gyda siec rhif **100235**.
7. **Gwefan:**
  - 7.1. Adeiladu'r wefan – ar ôl edrych ar wefannau Cynghorau eraill penderfynwyd gofyn i Arfon Parry ddod draw i'r cyfarfod nesaf i drafod ymhellach.
  - 7.2. Cytunodd Rhiannon Williams Warden y Ganolfan i edrych ar ôl y wefan.
8. **Gair gan y Cyng. Dilwyn Roberts:**

Nid oedd y Cynghorydd Sirol yn bresennol.
9. **Unrhyw fater arall:**
  - 9.1. Derbyniwyd llythyr gan Warden y Ganolfan ar ran y trigolion lleol yn diolch i'r Cyngor am y goeden 'dolig.
  - 9.2. Penderfynwyd ein bod yn gofyn i Rhian Evans archwilio'r llyfrau i ni eleni ac i'r clerc anfon llythyr ati er mwyn cadarnhad nad oes unrhyw gysylltiad gyda'r Cynghorwyr nac ychwaith yng ngwaith y Cyngor.
10. **Dyddiad y cyfarfod nesaf nos Lun Mawrth 2ail 2015 am 7.30 y.h.**

\*\*\*\*\*

Trefnwyd cyfarfod ychwanegol ar nos Lun Chwefror 16eg 2015 am 7. 30 y.h. gyda Dewi Evans yn y gadair.

1. **Datgan Cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol** – mynegodd Dewi Evans ddiddordeb yn eitem rhif 6 ar yr agenda.
2. **Presennol:** Alun Edwards, Dewi Evans, Gari Jones ac Edmund Rees
3. **Ymddiheuriad:** Cyng. Alun Owen, Paul Weston a'r Cynghorydd Sirol Dilwyn Roberts.
4. Croesawyd Arfon Parry o gwmni Cradur hefyd Rhiannon Williams Warden y Ganolfan atom. Cafwyd gweld gan Arfon y datblygiad diweddara ar adeiladu'r wefan ac eglurodd sut y bu yn gweithio. Cytunwyd fod y clerch a'r warden yn mynd am hyfforddiant ar sut i ychwanegu dogfennau i'r wefan a hefyd os bydd tri arall a diddordeb mewn mynd.
5. **Talu Anfonebau:**
  - 5.1. **Un Llais Cymru** – cynigiodd Edmund Rees gydag Alun Edwards yn eilio a phawb yn gytûn ein bod yn ymaelodi gyda'r gymdeithas ac yn talu'r dal aelodaeth o **£42** gyda siec rhif **100237**.
  - 5.2. **Cradur.com** – Cynigiodd Edmund Rees gyda Gari Jones yn eilio a phawb yn gytûn ein bod yn talu'r anfoneb am adeiladu'r wefan o **£374.00** gyda siec rhif **100236**.
6. **Cais Cynllunio Rhif 41459:**

Bu i'r Cadeirydd Dewi Evans adael y cyfarfod gan fod ganddo ddiddordeb yn y mater a ddaeth gerbron.

Ymgeisydd - Mr Arwyn Evans  
Cynllun - Gosod 1 tyrbin gwynt  
Safle - Cwrt y Llyn, Pentrefoelas

Ar ôl ystyried y Cais penderfynwyd nad oedd sylwadau yn cael ei gyrru 'mlaen.

\*\*\*\*\*

Hysbyswyd y Cynghorwyr o'r Cais Cynllunio a ddaeth i law:

1. **Cais Cynllunio Rhif 41530:**

Ymgeisydd - Mr a Mrs H Roberts  
Cynllun - Estyniad ac Addasiadau Arfaethedig  
Safle - Parc, Pentrefoelas

Ni chafwyd sylwadau na gwrthwynebiad i'r Cais.

\*\*\*\*\*

